OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1336 (Cy.129) (C.44)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 10 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 16 Mai 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 10 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

Y diwrnod penodedig

4.—(1) 31 Mai 2006 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(2) Mae Rhan 2 o'r Atodlen honno (Darpariaeth drosiannol) yn gymwys.

(**1**) 2002 p.32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
16 Mai 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Erthygl 4

Rhan 1

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mai 2006

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 148, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 12 isod	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r General Teaching Council for England
Yn Atodlen 12, Rhan 1, paragraff 3(1), paragraff 3(5) i'r graddau y mae'n mewnosod is-adrannau (3B) a (3D) o adran 3 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, a pharagraff 4(2) a (5).	Diwygiadau i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

Rhan 2

Darpariaeth drosiannol

Hyd oni chaiff paragraff 3(5) o Atodlen 12 ei ddwyn i rym yn llawn o ran Cymru, mae adran newydd 3(3B) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (y caiff ei mewnosod gan baragraff 3(5) o Atodlen 12 ei ddwyn i rym gan y Gorchymyn hwn) i gael effaith fel pe byddai'r geiriau "provisional registration or full" wedi'u hepgor, ac fel pe byddid wedi rhoi yn lle'r geiriau "relevant time" y geiriau "time of registration".

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym (ar 31 Mai 2006), o ran Cymru, ddarpariaethau Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn. Mae Atodlen 12 yn diwygio adrannau 3 a 4 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae'r adrannau hynny'n gymwys i'r General Teaching Council for England ac, yn rhinwedd adran 9 o'r Ddeddf honno, i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Prif effaith y diwygiadau a gaiff eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yw y bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, wrth ystyried cais cofrestru, yn gallu gwrthod y cais os nad yw'n fodlon bod y rhai sy'n gwneud cais am gael eu cofrestru yn addas i fod yn athrawon. Mae'r darpariaethau y daethpwyd â hwy i rym hefyd-

> yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i wneud rheoliadau ar yr amod bod, neu nad yw, unrhyw ddisgrifiad a ragnodwyd o bersonau yn eu gwneud yn bersonau addas i fod yn athrawon;

yn galluogi'r cyfryw reoliadau i ddarparu bod gan y rhai sy'n gwneud cais am gael eu cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac y mae eu ceisiadau'n cael eu gwrthod yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor;

yn galluogi'r cyfryw reoliadau i ddarparu yr hysbysir y rhai sy'n gwneud cais am gael eu cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o benderfyniad y Cyngor ac o'u hawl i apelio.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym o ran Cymru gan orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y ddarpariaeth	*Y dyddiad cychwyn*	*O.S. Rhif*
Adrannau 14 i 17	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran 18(2)	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran 19(6) (yn rhannol)	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 19 (1) i (7) (yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 20(1) i (3), (5)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adrannau 21 a 22	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adran 23	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adrannau 27 a 28	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 29	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 30	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adran 32	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adrannau 33 a 34	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 35	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran 36	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran 37	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran (39)(1) (yn rhannol)	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.178)
Adran 39 (yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 40 (yn rhannol)	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 40 (yn rhannol)	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran 41	4 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 42	4 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 43	1 Tachwedd 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 46	1 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 49	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 50	31 Mai 2005	2005/1395 (Cy.109)